

TEITHIAU'R WAUN

Moel Smytho

<p><i>Pellter: ~ 9 km (5.5 milltir); dringo ~ 200 m. Llwybrau a lonydd (rhan o'r daith ar briffordd); rhai llwybrau serth i fyny ac i lawr.</i></p>		<p><i>Distance: ~ 9 km (~ 5.5 miles); ascent ~ 200m. Paths and lanes (partly along main road); some steep paths up and down hill.</i></p>
<p>O faes parcio'r Ganolfan ewch at y briffordd a throï i'r chwith (i'r de).</p>	A	<p>From the Canolfan car-park go to the main road and turn left (south).</p>
<p>Ar ôl ~ 325 m (yr ail gyffordd) gwyrwch i'r chwith, ac yna yn fuan fforchïo i'r dde am ~ 1.2 km ar lon fechan heibio i wersyllfan Tan yr Onnen ar y chwith.</p>	B	<p>After ~325 m (the second junction) bear to the left, then soon fork right down a narrow lane for ~ 1.2 km (past a Tan yr Onnen camping site on the left).</p>
<p>Dilynwch arwydd llwybr cyhoeddus i'r dde, a dilynwch y llwybr ar draws y caeau a'r dyffryn at eglwys Betws Garmon.</p>	C	<p>Follow the public footpath sign to the right, follow the path across the fields and the valley to Betws Garmon church.</p>
<p>Croeswch y briffordd gyda gofal at y llwybr cyhoeddus ychydig i'r chwith o'r fynedfa i'r gwersyll. Dilynwch y llwybr cyhoeddus dros bont y rheilffordd a thrwy wersyll Bryn Gloch at y bont droed dros yr Afon Gwyrfai.</p>	D	<p>Cross the main road with care to the public footpath a little to the left of the entrance to the camping site. Follow the public footpath across the railway bridge and through the Bryn Gloch campsite to the footbridge across the river Gwyrfai.</p>
<p>Ar ôl croesi'r bont ewch i'r dde a dilyn yr afon am ychydig, ac yna dilyn y llwybr i'r chwith at grŵp o dai ac adeiladau. Dilynwch y llwybr cyhoeddus ar y trac rhwng yr adeiladau.</p>	E	<p>After crossing the bridge go right and follow the river for a while, then follow the path to the left to a group of buildings and houses. Follow the public path along the track between the buildings.</p>
<p>Wrth adael yr adeiladau cymerwch y llwybr cyhoeddus sy'n arwain i fyny'r allt. Mae'n dilyn ceunant i fyny ac yna'n gwro i'r chwith drwy'r coed ac allan i dir agored, yna i fyny at dir 'Hawl Tramwyo'.</p>	F	<p>As you leave the buildings take the public footpath that leads uphill. It follows a gorge and then bears left through the trees and out onto open ground, then uphill to the 'Open Access' land.</p>
<p>Dilynwch y llwybr amlwg i'r dde (mae'n cydreddeg â'r clawdd ac ochr y goedwig). Ar ôl rhyw 1.7 km (1 filltir) byddwch yn cyrraedd copa Moel Smytho. <i>Ceir golygfeydd gwych yma. O'ch blaen Bae Caernarfon, yr Afon Menai, Castell Caernarfon ac Ynys Môn. Ar ddiwrnod clir gellir gweld mynyddoedd Wicklow yn Iwerddon ar y gorwel i'r gorllewin. Tu ôl ichi mae gogoniant Eryri.</i></p>	G	<p>Follow the obvious path to the right (it runs alongside the wall and the edge of the forrest). After about 1.7 km (1 mile) you reach the summit of Moel Smytho. <i>There are magnificent views here. In front of you Caernarfon Bay, the Menai Straits, Caernarfon Castle, and the Isle of Anglesey. On a clear day it's possible to see the Wicklow mountains in Ireland on the horizon to the west. Behind you is the splendour of Snowdonia.</i></p>
<p>O'r copa dilynwch y llwybr i lawr at gornel ddwyreiniol caeau bychain.</p>	H	<p>From the summit follow the path down to the eastern corner of some small enclosures.</p>
<p>Dilynwch y llwybr trwy'r grug i'r dde at y wal, trwy'r giat yno a dilyn hen lwybr i lawr heibio i hen adfeilion, yna mae'r llwybr yn eitha' serth, ac yn mynd dros hen gamfeydd haearn mewn rhai mannau, drwy'r coed at y lôn.</p>	I	<p>Follow the path through the heather to the right towards the wall, go through the gate and follow the old path down past some old ruins, then the path becomes quite steep, and goes over some old iron stiles, through the trees to the lane.</p>
<p>Trowch i'r dde ar hyd y lôn i lawr at y briffordd, yna i'r chwith ar hyd y briffordd (gyda gofal) am rhyw 900 m at Y Ganolfan.</p>	J	<p>Turn right along the lane down to the main road, then to the left along the main road (with care) for about 900 m to Y Ganolfan.</p>
<p>Cliciwch yma i gael map ar y We ➡</p>	map	<p>➡ Click here for a map on the Web</p>